Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glanadda
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 4SG

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Glanadda yn gwasanaethu'r ardal drefol sydd ar ffin orllewinol dinas Bangor ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r ysgol yn nodi bod y disgyblion yn dod o gefndiroedd amrywiol gyda rhai'n freintiedig ac eraill yn ddifreintiedig. Mae 33% o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

Mae 38 o ddisgyblion amser llawn rhwng saith ac unarddeg oed ar gofrestr yr ysgol. Addysgir y plant mewn dau ddosbarth. Mae'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Glanadda o'r ysgol fabanod leol, Ysgol Coedmawr. Ffedereiddiwyd y ddwy ysgol ym mis Medi 2011. Caiff y ddwy ysgol eu harwain gan yr un pennaeth.

Ar hyn o bryd, mae 58% ar y gofrestr anghenion addysgol ychwanegol, sydd yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nifer fach iawn o'r disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol. Daw 12% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae 30% o'r disgyblion yn hanu o gefndir lleiafrifoedd ethnig.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Glanadda yn 2012-2013 yw £5,244. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,839. Mae Ysgol Glanadda yn safle 24ain o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod yr ysgol yn gymuned hapus, ofalgar;
- bod medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd y disgyblion yn datblygu'n dda ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd a gwaith tu allan i'r ysgol;
- bod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd mewn perthynas â'r targedau a osodwyd iddynt;
- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad yn y dosbarth; a
- bod athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n ysgogi'r disgyblion i ymgymryd â'u gweithgareddau yn frwdfrydig.

Serch hyn:

- nid oes digon o gynnydd ym medrau darllen ac ysgrifennu estynedig llawer o ddisgyblion yn y ddwy iaith;
- nid oes digon o her i sicrhau bod y disgyblion mwyaf galluog yn gwneud cynnydd priodol ar draws y cwricwlwm; ac
- nid yw'r marcio bob amser yn dangos yn ddigon clir sut i wella ansawdd a chynnwys y gwaith.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn anfoddhaol oherwydd:

- nid oes gan y arweinwyr weledigaeth ddigon strategol a chlir sy'n cael ei rhannu â gweddill y staff ar gyfer datblygu'r ysgol a chodi safonau;
- nid yw'r ysgol yn rhoi digon o sylw i ddadansoddi data a chodi lefel cyflawniad disgyblion;
- nid yw'r ddogfen hunanarfarnu yn ddigon arfarnol; a
- nid yw blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol wedi eu seilio ar ddeilliannau hunanarfarnu.

## Argymhellion

A1 Codi safonau yn y Gymraeg

A2 Codi safonau medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

A3 Cynllunio mwy bwriadus ar gyfer datblygu’r medrau ar draws y cwricwlwm

A4 Gwahaniaethu’n effeithiol er mwyn diwallu anghenion pob unigolyn, yn enwedig y disgyblion mwyaf abl

A5 Datblygu gallu’r llywodraethwyr i fonitro a herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol

A6 Sicrhau bod systemau hunanarfarnu’r ysgol yn arwain at nodi blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol yn gysylltiedig â chodi safonau

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon.  Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau llythrennedd a rhifedd mwyafrif y disgyblion adeg trosglwyddo i gyfnod allweddol 2 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae gan y rhan fwyaf fedrau cymdeithasol da. Fodd bynnag, mae medrau llythrennedd a rhifedd Cymraeg a Saesneg llawer o ddisgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, ar gyfartaledd, yn is na chyfartaleddau ysgolion y teulu dros y pedair blynedd diwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch hefyd yn is nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n astud ac yn canolbwyntio'n dda. Yn ystod gweithgareddau ffurfiol, mae mwyafrif y ddisgyblion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi ei ddysgu yn flaenorol. Maent yn cyfrannu'n hyderus ac yn synhwyrol i drafodaethau grŵp yn Saesneg. Serch hynny, nid yw medrau llafar Cymraeg llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddigonol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 ac nid oes ganddynt yr hyder i gyfrannu'n effeithiol i drafodaeth yn y Gymraeg.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen gyda rhuglder yn y Saesneg ac mae ychydig yn newid goslef y llais yn effeithiol. Serch hyn, nid oes digon o her yn y deunydd darllen ac ychydig yn unig sy'n troi at lyfr o'u gwirfodd i'w fwynhau. Dim ond ychydig o ddisgyblion sy'n gallu siarad am eu hoff lyfrau neu awduron, neu sy'n darllen yn rheolaidd ac yn eang. Mae safonau darllen yn y Gymraeg y mwyafrif o ddisgyblion yn is na safonau Saesneg, ac ychydig yn unig sydd yn medru trafod agweddau o lyfr er mwyn dangos dealltwriaeth o ddigwyddiadau a'u hoff gymeriadau yn hyderus. Serch hynny, maent yn defnyddio strategaethau darllen yn llwyddiannus i ddarganfod gwybodaeth wrth ymchwilio. O ganlyniad, mae medrau trawsieithu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol.

Mae medrau ysgrifennu Saesneg y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa briodol i ysgrifennu mewn amrediad o ffurfiau. Yn gyffredinol, caiff eu hysgrifennu ei strwythuro'n effeithiol ac mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu at bwrpasau ac mewn arddulliau gwahanol. Mae medrau atalnodi a sillafu'r mwyafrif yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion yn datblygu'n briodol yn y ddwy iaith.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion yn unig sydd yn cymhwyso'u medrau yn ddigon rheolaidd mewn pynciau a gweithgareddau gwahanol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda ar draws y cwricwlwm. Mae safon cyflwyniadau llawer o'r disgyblion ynghyd â gwaith trin data yn dda.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â’r targedau a osodwyd iddynt. Ar y llaw arall, nid yw’r disgyblion mwyaf galluog yn cyflawni cystal ag y dylent.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae ymatebion llafar mwyafrif y disgyblion yn datblygu’n dda. Mae eu gallu i weithio yn annibynnol a gwneud penderfyniadau sydd yn effeithio’n uniongyrchol ar eu dysgu hefyd yn datblygu’n briodol.

Mae’r niferoedd bach o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, ynghyd â’r canran sylweddol o hwyrddyfodiaid sydd â Saesneg yn ail iaith, yn aml yn effeithio ar ddata’r ysgol.

Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd pwnc craidd yn sylweddol is na chanlyniadau disgyblion mewn ysgolion eraill yn y teulu. Mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig ym mhob pwnc unigol hefyd yn is na chyfartaledd ysgolion y teulu ar wahân i wyddoniaeth, sydd ychydig yn uwch. Serch hyn, mae cyflawniad y disgyblion yn y lefelau uwch yn Saesneg yn well nag ysgolion eraill yn y teulu, er bod perfformiad yn y pynciau eraill yn is nag ysgolion y teulu. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y nifer y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim mae perfformiad y disgyblion yn gosod yr ysgol ymhlith 25% isaf ar gyfer cyflawniad lefel 4 mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd ymarfer y corff a chadw’n iach. Mae eu medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd yn datblygu’n dda ac yn eu paratoi’n dda ar gyfer bywyd a gwaith tu allan i’r ysgol. Maent yn datblygu i fod yn unigolion cyfeillgar a chwrtais.

Mae’r disgyblion yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau dros eu cyd-ddisgyblion ac maent yn ymfalchïo yn yr amrywiaeth ethnig sydd ymhlith disgyblion yr ysgol. Fe welir hyn yn y cymorth a roddant i’r naill a’r llall. Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn troi at y staff os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad yn y dosbarth. Mae bron pob disgybl yn cydweithio'n llwyddiannus, yn barod i rannu syniadau ac yn awyddus i gefnogi ei gilydd.

Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac mae disgyblion yn mynegi eu safbwyntiau'n dda. Caiff eu safbwyntiau eu gwerthfawrogi ac maent wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau megis amgylchedd yr ysgol, adnoddau a phenderfynu pa elusennau i’w cefnogi.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae cynlluniau gwaith pynciau unigol yn cael eu defnyddio’n briodol er mwyn sicrhau bod ystod o weithgareddau sy’n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae ymweliadau

amrywiol yn cael eu trefnu sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion. Serch hynny, prin iawn yw'r gweithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu trefnu ar gyfer y disgyblion.

Mae'r cynllunio tymor byr ar gyfer y medrau cyfathrebu a rhifedd wedi eu hadolygu'n ddiweddar, ond nid oes cynllunio penodol ar gyfer sicrhau dilyniant a datblygiad ym mhrofiadau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu yn estynedig ar draws y cwricwlwm, gyda gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio cynnydd y disgyblion. Nid yw'r cynllunio ychwaith yn sicrhau bod anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion yn cael eu diwallu, yn enwedig disgyblion mwy abl a rhai sydd â Saesneg yn ail iaith. Nid yw medrau rhifedd yn cael eu hatgyfnerthu'n ddigonol trwy weithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau dysgu annibynnol a medrau meddwl yn dechrau cael sylw pwrpasol.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn peth profiadau sy'n annog ymwybyddiaeth o'r dimensiwn Cymreig. Mae cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd eang yn derbyn sylw priodol mewn rhai agweddau o'r cwricwlwm. Mae arddangosfeydd cynhwysfawr, ynghyd â gwaith ar Fasnach Deg, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol, gan sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gwaith. Mae'r athrawon yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r anghenion ieithyddol amrywiol sydd yn eu dosbarth. Mae hyn yn cynnwys Cymry cynhenid a disgyblion o gefndir lleiafrifoedd ethnig, sydd â Saesneg yn ail iaith iddynt, er mwyn darparu gweithgareddau sy'n eu hysgogi i ymgymryd â'u gweithgareddau yn frwdfrydig. Mae'r athrawon yn sensitif i'r anghenion ieithyddol ac yn modelu iaith dda, yn cwestiynu'n effeithiol ac yn llwyddo i sefydlu perthynas glos gyda'r disgyblion yn eu gofal. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac yn hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae'r athrawon yn cydgynllunio'n effeithiol gyda'r cynorthwywyr dosbarth ac yn gosod amcanion clir i'r gweithgareddau dysgu. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol i'r plant drafod, gan eu hannog i ddatblygu eu syniadau eu hunain a'u rhannu. Mae hyn yn cael dylanwad clir ar gynnydd y grwpiau gwahanol, yn enwedig disgyblion sydd â Saesneg yn ail iaith. Fodd bynnag, nid yw tasgau bob amser yn ddigon heriol i ddiwallu anghenion y disgyblion mwyaf galluog.

Mae'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth ac adborth llafar addas yn ystod y gwersi, sy'n arwain at nodi agweddau i'w gwella. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn ymwybodol o'u targedau, ac yn adnabod nodweddion da eu gwaith. Mae rhai disgyblion yn gwerthuso gwaith eu hunain a'u cyfoedion ond nid yw hyn yn arfer reolaidd ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn asesu'r disgyblion yn unol ag amserlen benodol, gan olrhain cynnydd dros gyfnod yn fwriadus ac yn effeithiol. Mae hyn yn arwain at gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad.

Mae'r adroddiadau i rieni yn fanwl ac yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i rieni am ddatblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ofalgar. Mae gan y staff berthynas agos gyda'r disgyblion. Maent yn gefnogol iawn ohonynt, ac yn ceisio hybu eu hyder trwy systemau canmol amrywiol. Mae'r prosesau hyn yn cychwyn cyfrannu at hybu hunanddelwedd y disgyblion.

Mae ymwelwyr achlysurol i'r ysgol yn cyfrannu'n briodol at brofiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r disgyblion yn derbyn rhai cyfleoedd i gyfrannu syniadau trwy'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco, er enghraifft trwy ddewis gwisg ysgol newydd ar gyfer y disgyblion.

Mae datblygiad moesol ac ysbrydol yn dda, ond nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad diwylliannol yn ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae gan yr ysgol berthynas waith agos gyda rhai asiantaethau sy'n cefnogi gydag agweddau megis ymddygiad, iechyd a lles.

Mae'r nifer sylweddol o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cefnogaeth addas gan y cydlynydd anghenion ychwanegol a'r cynorthwywyr dosbarth. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn sgil rhaglenni ymyrraeth a chefnogaeth arbenigol.

Mae'r ysgol wedi bod yn araf wrth ymateb i'r angen i wella presenoldeb. Bellach mae wedi cyflwyno strategaethau priodol i fonitro presenoldeb sydd wedi dechrau cael effaith gadarnhaol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodoli gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r pennaeth a'r staff yn talu sylw addas i hyrwyddo cydraddoldeb ymysg y disgyblion.

Trwy gynllunio gofalus, mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i gefndiroedd disgyblion i wneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yn cael mynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac i'r cyfleoedd a gynigir gan yr ysgol.

Ceir cyflenwad addas o adnoddau o ansawdd priodol er mwyn diwallu anghenion y cwricwlwm ond ni wneir y defnydd gorau ohonynt ym mhob gwers gan nad ydynt yn ddigon hygyrch i'r disgyblion. Cyfyng iawn hefyd yw'r deunydd darllen sy'n cael ei ddarparu yn y dosbarthiadau ar gyfer y disgyblion, yn arbennig yn y Gymraeg.

Mae ystafelloedd mewnol yr ysgol yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan, ond mae'r ardaloedd y tu allan yn ddi-raen ac mae angen tacluso a chodi sbwriel. Mae digon o ardaloedd chwarae, ond prin iawn yw'r adnoddau chwarae ac nid oes defnydd ysgogol yn cael ei wneud o'r tir ac eithrio gardd fechan.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn cydweithio'n agos i ffedereiddio'r ysgol gyda'r ysgol fabanod gerllaw. Mae'r ysgol wedi llwyddo i greu awyrgylch positif ble mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel.

Serch hynny, nid oes gan arweinwyr weledigaeth ddigon strategol a chlir sy'n cael ei rhannu â gweddill y staff ar gyfer datblygu'r ysgol a chodi safonau.

Mae gan yr holl staff swydd ddisgrifiadau priodol. Mae gan y staff addysgu gyfrifoldebau am ddatblygiad elfennau penodol o'r cwricwlwm ond nid yw eu rôl yn monitro darpariaeth a safonau wedi'i datblygu'n ddigonol ac nid ydynt yn rhan cyflawn o systemau hunanarfarnu'r ysgol.

Er bod ganddynt ddealltwriaeth o'u dyletswyddau, nid yw cyfrifoldebau'r tîm rheoli wedi eu ffurfioli ddigon. Nid ydynt yn chwarae rhan ddigon gweithredol wrth lunio cynllun datblygu ysgol a gosod cyfeiriad strategol yr ysgol.

Nid yw'r ysgol yn rhoi sylw digonol i ddadansoddi data i adnabod unigolion sydd angen cefnogaeth ac i osod targedau priodol ar eu cyfer er mwyn codi lefel cyflawniad disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae nifer o'r llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol ac mae hyn yn cyfrannu'n briodol i'w dealltwriaeth o anghenion y sefydliad. Mae ganddynt wybodaeth dda am rediad yr ysgol o ddydd i ddydd. Maent wedi dechrau defnyddio dadansoddiadau data'r ysgol i drafod perfformiad yr ysgol, ond nid ydynt yn derbyn gwybodaeth ddigon manwl ar gyfer rhoi digon o her i'r ysgol ar ei pherfformiad.

Nid yw'r llywodraethwyr yn derbyn digon o wybodaeth sy'n deillio o systemau hunanarfarnu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i rai blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ond nid yw wedi mynd i'r afael â chodi safonau mewn llythrennedd. Mae wedi ymateb i rai o egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd, yn benodol mewn elfennau o les disgyblion. Mae gweithrediad medrau meddwl a gallu'r disgyblion i fesur eu llwyddiant yn dechrau cael effaith bositif ar eu dysgu.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid yw systemau hunanarfarnu'r ysgol yn ddigon trylwyr. Nid yw'r prosesau yn canolbwyntio digon ar godi safonau ac ni chaiff deilliannau eu dadansoddi yn ddigon manwl er mwyn llunio strategaethau ar gyfer gwelliant.

Nid yw trefn yr ysgol o fonitro ei pherfformiad yn erbyn blaenoriaethau y cynllun datblygu yn ddigon penodol. Nid yw rhan y staff yn y broses yn ddigonol ac nid oes digon o sylw yn cael ei roi i dystiolaeth uniongyrchol. Mewn ychydig o achosion, mae

cydlynwyr pwnc wedi archwilio samplau o waith disgyblion ac wedi rhannu canfyddiadau mewn cyfarfodydd staff. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion ysgrifenedig sy'n deillio o'r gwaith hwn yn ddigon manwl a dadansoddol o ran adnabod agweddau i'w datblygu. Prin yw'r dystiolaeth o effaith y gweithgareddau hyn ar wella safonau a darpariaeth

Er bod y broses hunanarfarnu yn adnabod rhai agweddau i'w datblygu ymhellach, nid yw'r blaenoriaethau o fewn cynllun datblygu'r ysgol wedi eu seilio ar yr agweddau hyn. Nid yw staff yn arfarnu effaith y camau gweithredu ar ganlyniadau disgyblion. O ganlyniad i hyn nid yw'r ddogfen hunanarfarnu yn ddigon arfarnol.

Mae trefniadau priodol sy'n galluogi'r staff i ddatblygu'n broffesiynol. Mae mwyafrif y staff dysgu a'r cynorthwywyr wedi mynychu cyrsiau er mwyn datblygu medrau newydd. Mae rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar eu haddysgu.

### Gweithio mewn partneriaeth: Digonol

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau defnyddiol yn cynnwys y gymuned a'r awdurdod lleol er mwyn gwella lles disgyblion. Mae perthynas briodol yn bodoli gyda'r rhieni, sydd yn cefnogi rhai datblygiadau megis datblygu gardd yr ysgol. Maent yn cefnogi'r ysgol trwy fynychu digwyddiadau fel ffeiriau codi arian a pherfformiadau blynyddol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn datblygu cysylltiadau gyda'r gymuned, ac mae rhai busnesau lleol yn cefnogi gwaith yr ysgol. Daw aelodau o'r gymuned i'r ysgol i rannu profiadau gyda'r disgyblion megis gweithgareddau masnach deg. Er hyn, prin yw defnydd yr ysgol o bartneriaethau strategol ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r ysgol wedi cychwyn cydweithio gydag ysgolion y clwstwr er mwyn cymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn wedi sicrhau gwell dealltwriaeth o ofynion y cwricwlwm yn ogystal â gwelliannau yn yr asesu.

Mae partneriaeth agos ac effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol fabanod sy'n rhan o'r ddarpariaeth ffederal. Mae cydweithio rhwng aelodau staff y ddwy ysgol yn datblygu. Mae'r trefniadau trosglwyddo i'r ysgolion uwchradd yn effeithiol a chynhwysol. Prin iawn yw'r cyfleoedd i gydweithio ag ysgolion eraill er mwyn rhannu arferion da a chynllunio ar y cyd.

### Rheoli adnoddau: Digonol

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i ymgymryd â'u gwaith. Mae'r staff addysgu a'r staff cynorthwyol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm cydwybodol ac mae cyfleoedd priodol iddynt oll i ddatblygu eu medrau proffesiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgu a'r addysgu. Gwna athrawon ddefnydd priodol o'u hamser ar gyfer cynllunio a pharatoi gwersi.

Mae'r corff llywodraethol yn cadw golwg ofalus ar y gyllideb ac mae cyllid wrth gefn yn cael ei ddyrannu'n addas er mwyn ymateb i flaenoriaethau'r cynllun datblygu. Mae gan yr ysgol ystod addas o adnoddau priodol ac mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau y gwneir defnydd da ohonynt.

O ystyried y safonau digonol, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na chyfartaleddau'r teulu a chyfartaleddau ysgolion Cymru mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf.

Yn 2012, roedd cyflawniad y disgyblion ar lefel 4 ym mhob pwnc yn llawer is na chyfartaleddau'r teulu ac ysgolion Cymru, ar wahân i wyddoniaeth, a oedd ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Mae perfformiad disgyblion yr ysgol yn y pynciau unigol dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn anghyson iawn. Roedd canlyniadau Saesneg a mathemateg yn sylweddol uwch na chanlyniadau'r teulu yn 2011 ond nid oes patrwm tebyg i'w weld yn y pedair blynedd ddiwethaf mewn unrhyw bwnc arall. Mewn cymhariaeth ag ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, mae cyrhaeddiad y disgyblion mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf.

Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel yn uwch na'r disgwyl (lefel 5) hefyd yn anghyson dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg ond ychydig yn uwch ar gyfer gwyddoniaeth.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol ar lefel 5 wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros y pedair blynedd flaenorol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canlyniadau yn y Gymraeg yn gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% isaf am dair o'r pedair blynedd diwethaf.

Nid oes patrwm arwyddocaol yng nghyflawniad y bechgyn a'r merched dros gyfnod.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Ymatebodd 35 o ddisgyblion i’r holiadur. Mae bron pob un o’r ymatebion yn gadarnhaol iawn ac yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae pob disgybl yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, ac yn credu bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae bron pob disgybl yn gwybod beth i’w wneud, a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae pob un plentyn yn dweud bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw achosion o fwlian, a’u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu’n gofidio. Cred bron pob un disgybl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, a bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae ychydig o’r disgyblion yn credu nad yw’r gwaith cartref a osodir yn eu helpu i ddeall eu gwaith yn yr ysgol.

Mae llawer yn dweud bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a’u bod yn gallu gwneud eu gwaith. Mae bron pob disgybl hefyd yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Mae pob un yn credu bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw’n iach a bod llawer o gyfleoedd am ymarfer corff rheolaidd yn yr ysgol.

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 13 o atebion i’r holiaduron rhieni. Mae bron pob rhiant yn mynegi lefelau uchel o foddhad gyda'r ysgol. Mae cyfran yr ymatebion cadarnhaol ym mron pob un achos yn sylweddol uwch na chymariaethau cenedlaethol.

Mae pob rhiant yn credu bod y staff yn disgwyl i’r plant weithio’n galed ac i wneud eu gorau. Mae pob rhiant hefyd yn credu bod eu plant yn cael eu trin a pharch ac yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un yn cytuno bod yr ysgol yn cael ei harwain yn effeithiol, ac yn nodi bod yr addysgu’n dda.

Mae pob rhiant yn credu eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am gynnydd eu plentyn. Mae ychydig iawn yn teimlo nad yw gwaith cartref yn adeiladu ddigon ar y gwaith a wneir yn yr ysgol. Mae ychydig yn anfodlon gydag ymddygiad y plant tra bod ychydig iawn o’r rhieni yn anhapus hefyd gydag ansawdd yr addysgu yn yr ysgol.

Mae bron pob rhiant yn deall trefn yr ysgol ar gyfer codi cwyn, ac yn nodi eu bod yn teimlo’n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i’r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Mae bron pob rhiant yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn gwneud cynnydd da a bod y staff wedi eu helpu i ymgartrefu’n dda wrth gychwyn yn yr ysgol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Wyn Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Owen Glyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| Geraint Wyn Jones | Arolygydd Lleyg |
| Jeremy Turner | Arolygydd Cymheiriaid |
| Len Brookes | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.